## Frac Bretagne, Roazhon/Rennes

https://www.fracbretagne.fr/fr/

**Hyd**: 2 fis

**Dyddiad**: 1 Mehefin - 26 Gorffennaf 2026

Mae preswylfa Magnetig 4, dan arweiniad Frac Bretagne, yn cynnig 7 wythnos o ymchwil ymdrochol yn Oriel Dourven ac wythnos o rwydweithio proffesiynol yn Roazhon/Rennes.

**Frac Bretagne**

Wedi'I sefydlu ym 1981, mae'n sefydliad celf blaenllaw yn Llydaw. Drwy raglen uchelgeisiol o arddangosfeydd, lledaenu gwaith, dogfennu'r casgliad a rhaglenni i'r cyhoedd, nod y prosiect 'Gwneud Ynysforoedd' yw cwestiynu sut rydym yn gallu diwallu dyheadau ein cymdeithas. Mae cynhwysiant, amrywiaeth a bod yn agored o ran disgyblaethau eraill Llydaw a gweddill y byd yn agweddau pwysig ar y genhadaeth. Cafodd ei ddatblygu'n gyfranogol drwy rwydweithio a chydgynhyrchu. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gydraddoldeb rhywedd ac ecogyfrifoldeb.

**Oriel Dourven**
https://www.lannion-tregor.com/fr/sport-culture/la-galerie-du-dourven.html

Mae'n ganolfan i greu ac arddangos celf gyfoes. Mae mewn ardal naturiol eithriadol o 16 hectar ar bentir arfordirol Trédrez-Locquémeau, yn agos at dref Lannuon/Lannion, yn Llydaw. Yn ei pharc mae planhigion o bob cwr o'r byd sydd yno ers canrif. Mae mannau wedi'u plannu a rhai wedi'u tirlunio yn byw mewn cytgord yn erbyn cefndir cyfnewidiol yr arfordir.

Gan adleisio'r lleoliad naturiol, mae'r arddangosfeydd gan artistiaid gweledol lleol a rhyngwladol yn cynnwys pob techneg o drafod y dirwedd. Mae hefyd yn breswylfa ymchwilio a chreu sy'n cynnig amser a lle i fyw a gweithio gydag adnoddau technegol i gefnogi artistiaid. Mae'n cynnig ysbrydoliaeth i artistiaid drafod y diriogaeth drwy eu corff a'u meddwl.

**1/ Ffocws**

Mae lleoliad yr Oriel yn agor meysydd ymchwil eang - celf a natur, yr amgylchedd a ffyrdd newydd o fyw.

**2/ Adnoddau'r rhaglen**

Mae'r breswylfa'n cynnig:

- ffi o 2500 € y mis
- llety preifat wedi'i ddodrefnu yn yr Oriel a Roazhon/Rennes
- cefnogaeth guradurol gan Etienne Bernard, cyfarwyddwr Frac Bretagne ac Elsa Briand, cyfarwyddwr Oriel Dourven
- cysylltu â phobl eraill yn y maes yn lleol (cymdeithasau, sefydliadau, curaduron, artistiaid)
- cludiant o Brydain i Lydaw ac yn ôl a theithio o gwmpas yr ardal

**3/ Hygyrchedd**

Nid yw Oriel Dourven yn hygyrch i bobl sy'n cael trafferth symud. Nid yw'r oriel na'r llety yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Mae'r llwybr sy'n arwain o fynedfa'r parc i'r oriel yn llawn cerrig ac yn heriol i gerdded ar hyd-ddo. Mae grisiau i'r llawr cyntaf a dim lifft.

Mae 3 ystafell wely ar wahân ar lawr cyntaf y tŷ. Mae'n bosibl cynnwys cynorthwywyr neu deuluoedd wrth gytuno ar hynny â'r Oriel a chan ddibynnu ar faint o le sydd ar gael. Byddwch yn rhannu ystafell ymolchi/toiled/cegin â phreswylwyr eraill. Mae'r stiwdio/gweithle'n 15$m^2$ ac ar lawr gwaelod y tŷ. Mae ffenestri ymhob wal gyda golygfa wych o'r tir a'r môr. Nid oes clo ar ddrws y gweithle.

Nid oes cludiant cyhoeddus o'r pentref (ac eithrio un bws ar ddydd Iau i fynd i farchnad Lannuon a dod yn ôl). Mae'r orsaf drenau SNCF agosaf yn Lannuon (12 cilometr i ffwrdd). Mae maes parcio cyhoeddus wrth fynedfa'r parc. Mae modd llogi beiciau trydan ac mae tacsis ar gael. Y syniad gorau fyddai cyrraedd mewn car neu ei rentu yn Llydaw.